Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

# AR GYFER DYFED-POWYS

## FFRAMWAITH ARCHWILIO CWYNION

| Rheoli dogfen | |
|---|---|
| Rhif fersiwn | F2 |
| Awdur | Donna Cronin, Pennaeth Sicrwydd |
| Dyddiad gweithredu | Mai 2024 |
| Dyddiad adolygiad | Bob dwy flynedd |
| Awdurdodwyd gan | Carys Morgans, Prif Weithredwr a Swyddog Monitro |

## Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol.............................................................................3
2. Samplu ar Hap Ansawdd y Gwasanaeth.................................................... 3
3. Dadansoddi Tueddiadau – Asesiad Ystadegol ...........................................4
4. Archwiliad Dwfn .........................................................................................5
5. Panel Sicrhau Ansawdd ...............................................................................5
6. Strwythurau Cyfarfodydd............................................................................. 6

# 1. Crynodeb Gweithredol

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, sydd â dyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddwyn yr heddlu i gyfrif ar ran y cyhoedd.

Yn unol â Phrotocol Plismona 2023 mae gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ddyletswydd gyfreithiol i wneud y canlynol:-

*17n) monitro pob cwyn a wneir yn erbyn swyddogion a staff, ac mae'n gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl.*

Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol i'r cyhoedd ac i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) am y canlynol:-

*21(k) rheoli pob cwyn yn erbyn yr heddlu, ei swyddogion a'i staff, ac eithrio mewn perthynas â'r Prif Gwnstabl, a sicrhau bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei hysbysu'n rheolaidd mewn modd sy'n galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyflawni ei rwymedigaethau statudol mewn perthynas â chwynion mewn modd rheolaidd, ystyrlon ac amserol. Rhaid trosglwyddo cwynion a materion ymddygiad difrifol i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn unol â deddfwriaeth*

Diben y ddogfen hon yw amlinellu'r gweithgaredd Sicrwydd a Chraffu y bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei gynnal a fydd yn monitro/archwilio materion cwynion yn fewnol, hy cwynion a godwyd gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ac yn allanol, hy cwynion a godwyd gyda Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Nid ymyrryd â'r broses apelio o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 yw pwrpas y ddogfen hon. Dim ond drwy'r broses adolygiad barnwrol y gall unrhyw benderfyniadau a wneir gan y corff apeliadau perthnasol gael eu gwrthdroi gan y llysoedd.

Yn unol â'r Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig, bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyhoeddi **adroddiad blynyddol** i ddangos sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif o ran perfformiad cwynion. Yn ogystal, bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn darparu asesiad o'i berfformiad ei hunan wrth gyflawni swyddogaethau trin cwynion eraill.

# 2. Samplu ar Hap Ansawdd y Gwasanaeth

**Pwy**

Y Tîm Sicrwydd a/neu unrhyw un y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ei ystyried yn addas.

**Beth**

Bydd pum achos cwyn caeedig yn cael eu hystyried bob mis. Bydd y thema/pwnc yn cael ei nodi naill ai o ddata perfformiad chwarterol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, pryderon cenedlaethol neu leol sydd wedi'u nodi fel thema o ddadansoddi tueddiadau.

**Pryd**

Bob mis

**Lle**

Teams Microsoft neu yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

**Pam**

Rôl samplu ar hap yw craffu ar berfformiad proses rheoli cwynion heddluoedd. Mae nifer y cwynion am yr heddlu y mae Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys yn eu trin yn golygu y byddai'n anymarferol i'r Comisiynydd oruchwylio pob achos o gŵyn. Mae samplu ar hap achosion o'r fath yn galluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei gyfrifoldeb goruchwylio a monitro o dan y ddeddfwriaeth. Nid adolygu'r penderfyniad terfynol a wnaed mewn achosion unigol yw diben samplu ar hap, ond yn hytrach cynnal adolygiad cyffredinol o gydymffurfedd â'r weithdrefn, technegau ymdrin â chwynion a chyfiawnder naturiol i sicrhau hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu. Dylid defnyddio samplu ar hap ymhellach fel dull i nodi canlyniadau a thueddiadau dysgu i Heddlu Dyfed-Powys eu trafod a'u gweithredu (gweler yr adran Dadansoddi Tueddiadau – Asesiad Ystadegol).

**Sut**

Mae polisi samplu ar hap y cedwir ato. Bydd samplu ar hap misol yn dilyn rhaglen benodedig, oni bai bod materion sy'n peri pryder yn cael eu codi neu fod materion thematig. Bydd y samplu ar hap yn rhedeg ochr yn ochr â llinynnau allweddol thematig Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a fydd yn caniatáu i Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu rannu arferion gorau a dwyn ymlaen unrhyw bwyntiau ar gyfer gweithredu. Gall meysydd gwaith eraill o fewn tîm y Comisiynydd hefyd fwydo i mewn i'r rhaglen samplu ar hap a fydd yn ei thro yn bwydo i mewn i raglen graffu ehangach samplu ar hap, y cyflwynir y canlyniadau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

# 3. Dadansoddi Tueddiadau – Asesiad Ystadegol

**Pwy**

Y Tîm Sicrwydd

**Beth**

Bydd dadansoddiad yn cael ei wneud o'r dogfennau a amlinellir isod i nodi unrhyw dueddiadau neu batrymau a all ddod i'r amlwg i lywio sut yr ymdrinnir â chwynion, neu os oes rhai materion yn amlwg mewn rhai meysydd cwynion:

Bwletin Gwybodaeth Cwynion Chwarterol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Crynodebau Ymchwiliadau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ac argymhellion dysgu
Bwletin Dysgu'r Gwersi Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Pryderon Cymunedol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

**Pam**

Defnyddir dadansoddi tueddiadau fel arf ar gyfer mesur perfformiad, ar gyfer yr Adran Safonau Proffesiynol, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) a pherfformiad ar draws Heddlu Dyfed-Powys i gyd. Bydd yn rhoi gwybod i ni sut mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn ymdrin â'u cwynion ochr yn ochr â'n systemau ymdrin â chwynion ein hunain, ond bydd hefyd yn rhoi gwybod i ni pan fydd materion ehangach neu ailadroddus y mae angen mynd i'r afael â nhw y tu allan i'r maes cwynion.

**Pryd**

Bob chwarter

**Sut**

Cedwir taenlen Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer yr holl gwynion/pryderon cymunedol y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn eu derbyn. Bydd themâu'r duedd a nodwyd yn llywio gweithgarwch sicrwydd/craffu yn y dyfodol.

Yn ogystal, bydd y dogfennau uchod yn cael eu hastudio gan y Tîm Sicrwydd i weld a oes unrhyw dueddiadau neu batrymau yn amlwg o'r wybodaeth, a fydd yn cael eu trafod yn y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol.

# 4. Archwiliad Dwfn

Dadansoddi tueddiadau – bydd data asesu ystadegol sy'n nodi mater ehangach neu ailadroddus y mae angen mynd i'r afael ag ef y tu allan i'r maes cwynion yn cael ei ddadansoddi ar wahân drwy'r broses 'archwiliad dwfn'. Cynhelir asesiad cychwynnol drwy gasglu'r holl fanylion perthnasol, dadansoddi cwynion tebyg, cynnwys y Panel Sicrhau Ansawdd lle bo'n briodol a nodi rhanddeiliaid/adrannau allweddol yr heddlu. Yna bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu i asesu'r darlun presennol a nodi unrhyw feysydd amlwg sy'n peri pryder. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gwir destun cwyn ailadroddus yn cael ei greu oherwydd hepgoriad o bolisi ac felly mae ymateb yr heddlu i'r un sefyllfa yn amrywio – mae hyn yn nodi mai gwraidd y mater yw'r polisi. Pwrpas y broses samplu ar hap fydd nodi achos sylfaenol y mater ac edrych ar ba brosesau/hyfforddiant/darpariaeth y gellid eu newid i ddileu'r mater, a fydd yn ei dro yn arwain at leihau'r cwynion a dderbynnir ynghylch y mater penodol hwnnw.

# 5. Panel Sicrhau Ansawdd

**Pwy**

Panel Sicrhau Ansawdd

**Beth**

Ystyried a thrafod cwynion terfynol sydd wedi dod i sylw'r Tîm Sicrwydd am eu bod yn cynnwys materion penodol neu am eu bod yn cyd-fynd â meini prawf thema benodol a bennir gan waith dadansoddi tueddiadau. Bydd y cwynion yn cael eu dadansoddi o ran y ffordd y mae'r Adran Safonau

Proffesiynol wedi ymdrin â nhw ac a yw'n ddull teg a rhesymol, a'r argraff y mae'r gwasanaeth a ddarperir yn ei gael ar bobl nad ydynt yn yr heddlu.

**Lle**

Cyfarfod Panel Sicrwydd Ansawdd – Pencadlys yr Heddlu

**Pryd**

Bob blwyddyn

**Pam**

Diben y Panel Sicrhau Ansawdd yw mesur perfformiad ar lefel fwy strategol gyda lefel o oruchwyliaeth annibynnol.

**Sut**

Bydd mater thematig i'w adolygu neu achosion o bwys yn cael eu dwyn i sylw'r grŵp.

Gwneir cais i'r Adran Safonau Proffesiynol am holl gyfeirnodau cwynion sy'n ymwneud ag achosion a gaewyd yn unol â'r maen prawf neu feini prawf a nodir yn ystod cyfnod penodol, ac o'r data hwnnw, gwneir dewis o sampl ar hap o gyfeirnodau achos. Unwaith y bydd y cyfeirnodau achos wedi'u penderfynu, bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn gofyn am yr achosion electronig cyfatebol i'w hadolygu, yna gall y grŵp edrych arnynt a gall arwain at drafodaeth bellach.

Bydd canlyniadau'r trafodaethau'n cael eu cofnodi a bydd unrhyw awgrymiadau/sylwadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Adran Safonau Proffesiynol, ond hefyd yn cael eu cofnodi ar yr adroddiad Cwynion Dangosydd Perfformiad Allweddol.

# 6. Strwythurau Cyfarfodydd

**Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol**

Y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol fydd y fforwm craffu ar gyfer yr holl swyddogaethau a gyflawnir gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu a fydd yn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyflawni ei rwymedigaeth statudol yn unol â Phrotocol Plismona 2023.

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, unwaith bob tri mis. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol os yw'r Comisiynydd a'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cytuno pan fo busnes brys i'w drafod.

Mae'r **Cylch Gorchwyl** yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y Bwrdd yn gweithredu a'r materion a fydd yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd.

**Cyfarfodydd Misol**

Mae Tîm Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyfarfod ag Uwch Reolwr yr Adran Safonau Proffesiynol a'r Goruchwyliwr Cwynion a Chamymddwyn i drafod achosion cwynion

penodol ac unrhyw bryderon goruchwylio a nodwyd o adolygiadau cwynion. Mae'n rhoi cyfle i drafod unrhyw newidiadau lleol neu genedlaethol diweddar neu gamau a gymerwyd o gyfarfod y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol chwarterol.

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu**

Bydd cyfarfodydd chwarterol yn cael eu cynnal rhwng Cyfarwyddwr Rhanbarthol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Pennaeth Sicrwydd i drafod materion thematig sydd wedi codi ac y mae angen mynd i'r afael â nhw, boed yn lleol neu'n genedlaethol.

Yn ogystal, bydd y Pennaeth Sicrwydd yn cwrdd â Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i drafod perfformiad Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys ac i drafod unrhyw themâu sy'n codi o gwynion samplu ar hap ac adolygiadau cwynion

**Cyfarfod Rhwydwaith Cwynion Prif Weithredwyr Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu**

Cynhelir cyfarfodydd chwarterol Rhwydwaith Cwynion a Gwaith Achos Prif Weithredwyr Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, a fynychir gan y Pennaeth Sicrwydd i drafod polisi a gweithdrefnau cwynion lleol a chenedlaethol a'r gweithredu ar draws holl Swyddfeydd Comisiynwyr.

Adolygiad Nesaf Mai 2026